**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies, AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

13 Mehefin 2023

Annwyl Paul

**Bil Amaeth (Cymru) – diweddariad ar Gyfnod Adrodd y Memorandwm Esboniadol**

Cyn dadl y Cyfnod Adrodd ar Fil Amaeth (Cymru) ar 20 Mehefin, hoffwn roi gwybod i chi fy mod wedi cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil. Mae diwygiadau wedi'u gwneud ar draws y Memorandwm sy'n adlewyrchu'r Bil fel y'i gyflwynwyd ar Gam 3 a'r ymrwymiad a wnes yn ystod y ddadl.

Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol darparu manylion mewn perthynas ag argymhellion a ganlyn y Pwyllgor, er mwyn rhoi sicrwydd ichi eu bod yn cael eu trin yn briodol:

**<u>Gwelliannau Cyfnod 3</u>**

Diwygiwyd y Memorandwm Esboniadol a'r Atodiadau, gan gynnwys y Nodiadau Esboniadol i gynnwys yr holl welliannau a wnaed i'r Bil yn dilyn dadl Cyfarfod Llawn Cyfnod 3 a gynhaliwyd ar 16 Mai.

**Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Yr Amcanion:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gwelliant 39 i adran 1(6) i amlygu, at ddibenion yr amcan rheoli tir yn gynaliadwy ("SLM") cyntaf, y cyfraniad at yr economi leol a wneir gan fusnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.44 a'r Nodiadau Esboniadol).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Y Ddyletswydd:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gwelliant 4, adran newydd 2(3), gan egluro i ba raddau y mae'r ddyletswydd SLM (adran 2(1)) yn gymwys i'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 2(2)(b) ac (c) (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.66-3.68 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Monitro ac Adrodd:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru ar gyfer gwelliannau 40 a 41, i dynnu sylw at enghreifftiau penodol o faterion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, wrth baratoi neu ddiwygio datganiad o ddangosyddion a thargedau SLM (adran 5), ac wrth baratoi adroddiadau SLM (adran 7), (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.86-3.89 a 3.96-3.98 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Pŵer i ddarparu cymorth – annog busnes amaethyddol i reoli ynni yn effeithiol:** Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u diweddaru i adlewyrchu gwelliant 38 a wnaed i'r rhestr o dan Adran 8, sy'n ychwanegu diben newydd y gellir darparu cymorth ar ei gyfer (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.111, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol).

**Gwelliant 55, Cyfnod 3:** Diweddarwyd y Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu gwelliant 55 Cyfnod 3 (adran 9(3)) sy'n nodi set o amodau y mae'n rhaid i dderbynwyr posibl eu diwallu cyn eu bod yn gallu cael cymorth ariannol o dan y pŵer i ddarparu cymorth. (Gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.128).

Hoffwn i hefyd dynnu sylw at y ffaith, oherwydd cyfyngiadau amser ac effaith y Bil yn ei gyfanrwydd, ni ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol na'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Gwelliant 55. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gwblhau'r agweddau hyn unwaith y bydd ffurf derfynol y Bil yn hysbys.

**Cynllun Cymorth Amlflwydd:** Diweddarwyd y Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu gwelliant 42 a fewnosodwyd Adran newydd i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi 'Cynllun Cymorth Amlflwydd' mewn perthynas â'r cymorth amaethyddol o dan y Bil. (Gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.133 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol – Casglu a Rhannu Data:** Diweddarwyd y Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu gwelliant 6. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar weithrediad y gyfundrefn casglu data o fewn adrannau 24 i 31 o'r Bil bob pum mlynedd. (Gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.211 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Pennod 4 – Tenantiaethau Amaethyddol:** Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u diweddaru i adlewyrchu gwelliant 5. Mae'r Bil bellach yn gwneud darpariaeth a fydd yn galluogi tenantiaid busnes fferm o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 i gael mynediad at weithdrefnau cyflafareddu, pan fo landlord wedi gwrthod cais am amrywio tenantiaeth, neu gais am ganiatâd, a wnaed i'r tenant gael mynediad at fathau penodol o gymorth (gan gynnwys cymorth a ddarperir o dan adran 8). Gall yr anghydfod hefyd ymwneud â cheisiadau a wneir at ddibenion cydymffurfio â dyletswydd statudol (gweler Rhan 1, Pennod 3, 3.192 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Rhan 4 – Coedwigaeth:** Diweddarwyd y Memorandwm Esboniadol ar ei hyd i adlewyrchu gwelliannau eang 7-34 i'r darpariaethau Coedwigaeth (gweler Rhan 1, Pennod 3, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Pennod 9 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Cyffredinol: Adran 53 – Pwerau i ddiwygio Adrannau 51 a 52:** Diweddarwyd y Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu gwelliannau 35 a 36 i newid y pŵer gwneud rheoliadau i'r weithdrefn "uwchgadarnhaol". (Gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.345, Pennod 5 a'r Nodiadau Esboniadol).

**<u>Fframwaith Bioamrwyiaeth Byd-eang Kunming-Montreal COP 15</u>**

Fel yr ymrwymais iddo yng Nghyfnod 3, rwyf wedi gwneud diweddariadau i'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 3.53) er mwyn cyfeirio'n benodol at Fframwaith Amrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal COP15, sy'n cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ei nodau drwy, er enghraifft, gamau gweithredu o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**